| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Bwrdd y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 17 Chwefror 2009 |
| **ADRODDIAD** | Diweddariad Arbedion 2009/10 |
| **PWRPAS** | Derbyn cyrhaeddiad y gwasanaethau yn erbyn y targed arbedion ar gyfer 2009/10 |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Dyfed Edwards |

**1. Cefndir**

1.1 Ar gyfer 2009/10 gweithredir ar hyn o bryd ar darged fel sail cynllunio o £4miliwn. Yng nghyfarfod y Tîm Rheoli a'r Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth yn Ebrill cytunwyd ar y cerrig milltir isod:

- adnabod cynlluniau gwerth 50% o darged y Cyngor erbyn cychwyn Gorffennaf 2008
- adnabod cynlluniau gwerth 100% o darged y Cyngor erbyn cychwyn Hydref 2008
- cadarnhau 100% o darged y Cyngor erbyn cychwyn Rhagfyr 2008.

**2. Y sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn targed Strategaeth Ariannol 2009/10**

2.1 Mae amcangyfrif yr arbedion ariannol parhaol tuag at y targed cynllunio o £4miliwn yn £3.952miliwn, sef 99%. O'r rhain mae:

- 55% o'r arbedion yn y categori 'cadarn'
- 45% o'r arbedion yn y categori 'cynlluniedig'.

2.2 Cyflwynir y sefyllfa yn erbyn y targed fesul gwasanaeth yn y tabl isod.

| Gwasanaeth | Targed cynllunio 2009/10 £ | (Gwarged) / Diffyg 2008/09 £ | Targed diwygiedig 2009/10 £ | Cadarn £ | Cynllunied ig £ | Cyfanswm £ | % o'r targed £4m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 29,200 | 0 | 29,200 | 29,200 | 0 | 29,200 | 100% |
| Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 88,570 | 0 | 88,570 | 88,570 | 0 | 88,570 | 100% |
| Cyllid | 88,320 | 0 | 88,320 | 88,320 | 0 | 88,320 | 100% |
| Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd | 145,160 | 0 | 145,160 | 145,160 | 0 | 145,160 | 100% |
| Cynllunio a Thrafnidiaeth | 204,380 | 47,550 | 251,930 | 251,930 | 0 | 251,930 | 100% |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 605,680 | (27,500) | 578,180 | 514,180 | 64,000 | 578,180 | 100% |
| Ymgynghoriaeth | 87,100 | (26,590) | 60,510 | 60,510 | 0 | 60,510 | 100% |
| Dysgu Gydol Oes | 313,730 | 0 | 313,730 | 313,730 | 0 | 313,730 | 100% |
| Economi ac Adfywio | 62,860 | 0 | 62,860 | 62,860 | 0 | 62,860 | 100% |
| Plant | 220,620 | 0 | 220,620 | 176,320 | 44,300 | 220,620 | 100% |
| Ysgolion (Canolog) | 384,430 | 0 | 384,430 | 241,050 | 68,720 | 309,770 | 81% |
| Darparu | 9,090 | 0 | 9,090 | 0 | 0 | 0 | Gweler nodyn isod |
| Gwasanaeth Oedolion | 840,210 | 0 | 840,210 | 0 | 840,210 | 840,210 | 100% |
| Tai | 32,280 | 0 | 32,280 | 5,380 | 26,900 | 32,280 | 100% |
| Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | 103,110 | 6,540 | 109,650 | 109,650 | 0 | 109,650 | 100% |
| Corfforaethol (Darparu ac Ysgolion Arbennig) * | 38,430 | 0 | 38,430 | 0 | 0 | 0 | |
| Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 74,393 | 0 | 74,393 | |
| **Is-gyfanswm** | **3,253,170** | **0** | **3,253,170** | **2,161,253** | **1,044,130** | **3,205,383** | **99%** |
| Ysgolion Cynradd | 314,240 | 0 | 314,240 | 0 | 314,240 | 314,240 | 100% |
| Ysgolion Uwchradd ** | 432,590 | 0 | 432,590 | 0 | 432,590 | 432,590 | 100% |
| Ysgolion Arbennig | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| **Cyfanswm** | **4,000,000** | **0** | **4,000,000** | **2,161,253** | **1,790,960** | **3,952,213** | **99%** |

* dangosir addasiad i darged arbedion y Gwasanaeth Darparu ac Ysgolion Arbennig o dan y faner 'corfforaethol' yn hytrach na dyrannu targed ychwanegol i'r gwasanaethau unigol.

** Cyflwynir bid refeniw am £130,000 i leihau cyfraniad arbedion ysgolion uwchradd i'r un lefel ac ysgolion cynradd

2.3 Noder fod rhai gwasanaethau wedi gorgyflenwi (£103,010) yn erbyn y targed tra bod rhai gwasanaethau wedi tangyflawni (£74,660) yn erbyn y targedau.

2.4 O ran ffocws, mae pwyslais y gwasanaethau o ran effeithlonrwydd (53%), codi incwm (19%) a thoriadau (28%) i'w gweld yn Atodiad A.

2.6 Noder o ran y cynlluniau corfforaethol sy'n cael eu datblygu mae £79,174 o arbedion wedi eu hadnabod yn ychwanegol i'r hyn a adroddir yn nhabl 2.2 ar gyfer 2009/10. Mae gwaith pellach angen ei wneud cyn cadarnhau'r arbedion ac mae risgiau ynghlwm â'r cynlluniau.

**3. Y sefyllfa ddiweddaraf yn erbyn y targed arbedion effeithlonrwydd 09/10**

3.1 Mae amcangyfrif diweddaraf yr arbedion yn erbyn y proffil blynyddol o £1.913m (sy'n cyfateb a'r targed o wireddu 3% dros 3 blynedd) ar gyfer 2009/10 yn £2.080m sy'n cyfateb i 109%. Gweler manylion pellach yn y tabl isod. Noder nad yw'r cynlluniau wedi eu gwirio o ran y categori hyd yma.

| | **£'000 Cadarn** | **£'000 Cynlluniedig** | **£'000 Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 13,040 | 0 | 13,040 |
| Cefnogaeth Gofal Cwsmer | 58,180 | 0 | 58,180 |
| Cyllid | 75,320 | 0 | 75,320 |
| Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd | 83,470 | 0 | 83,470 |
| Cynllunio a Thrafnidiaeth | 75,210 | 0 | 75,210 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 500,715 | 64,000 | 564,715 |
| Ymgynghoriaeth | 29,000 | 0 | 29,000 |
| Dysgu Gydol Oes | 244,565 | 0 | 244,565 |
| Economi ac Adfywio | 0 | 0 | 0 |
| Plant | 370,920 | 0 | 370,920 |
| Ysgolion (Canolog) | 56,050 | 68,720 | 124,770 |
| Darparu | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | 340,210 | 340,210 |
| Tai | 0 | 26,900 | 26,900 |
| Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethol | 74,393 | 0 | 74,393 |
| **CYFANSWM** | **1,580,863** | **499,830** | **2,080,693** |

NODER: cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaeth yw sicrhau bod llwybr archwilio trylwyr ar gyfer pob cynllun effeithlonrwydd yn unol â'r canllaw arbedion effeithlonrwydd.

3.2 O ran cynnydd yn erbyn y targed 3% dros 3 blynedd, ceir crynodeb yn y tabl isod.

| **Gwir arbedion effeithlonrwydd** | **2007/08 £** | **2008/09 £** | **2009/10 £** | **Cyfanswm dros 3 blynedd** |
|---|---|---|---|---|
| Arbedion ariannol parhaol wedi eu hadnabod a'u gwireddu | 1,661,432 | 1,224,785 | 2,080,693 | 4,966,910 |
| Arbedion anariannol parhaol wedi eu hadnabod a'u gwireddu | 110,000 | 2,070,000 | 0 | 2,180,000 |
| **Holl Gyfanswm Arbedion Effeithlonrwydd Parhaol** | **1,771,432** | **3,294,785** | **2,080,693** | **7,146,910** |
| | | | | |
| **Targed Arbedion Effeithlonrwydd** | **1,913,000** | **1,913,000** | **1,913,000** | **5,739,000** |
| | | | | |
| **Balans** | **-141,568** | **1,381,785** | **167,693** | **1,407,910** |
| | | | | |
| Arbedion ariannol unwaith ac am byth wedi eu hadnabod a'u gwireddu | 0 | 2,480,000 | 0 | 2,480,000 |
| Arbedion anariannol unwaith ac am byth wedi eu hadnabod a'u gwireddu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Holl Gyfanswm Arbedion Effeithlonrwydd Unwaith ac am byth** | **0** | **2,480,000** | **0** | **2,480,000** |

## 4. Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Bwrdd dderbyn cyrhaeddiad y gwasanaethau yn erbyn y targed arbedion ar gyfer 2009/10.

A. Barn yr Aelod Lleol:-

B. Barn y Swyddogion Statudol:-

1. Prif Weithredwr :- “Fel mae'r adroddiad yn nodi, rydym yn medru adrodd ein bod wedi canfod £3.944 miliwn o arbedion yn erbyn yn erbyn targed o £4 miliwn ar gyfer 2009/10 (98%) a rhaid diolch am y gwaith sydd wedi sicrhau'r cynnydd hynny. Fodd bynnag, mae pethau yn mynd i fynd yn anoddach eto ac felly bydd yn rhaid i swyddogion ac aelodau fod yn barod i adnabod, cynllunio a gweithredu arbedion cadarn dros y blynyddoedd nesaf."

2. Swyddog Monitro:- “Dim i’w ychwanegu o ran priodoldeb.”

3. Prif Swyddog Cyllid:- “Targed y Gwasanaethau oedd darganfod £4M o arbedion ariannol “cadarn” ymhell cyn rŵan, pryd rydym ni yn sefydlu cyllideb 2009/10 (cofier fod yr arbedion yma i fod yn weithredol o’r 1af Ebrill 2009). Cadarnhaf fod modd cwtogi cyllidebau a gwireddu’r arbedion ariannol yn achos pob ffigwr “cadarn” adroddir arnynt yn adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad. Fodd bynnag, mae risg ynghlwm â’r ffaith fod cyfran sylweddol o’r arbedion ariannol yma yn parhau i fod â statws “cynlluniedig” yn hytrach na “chadarn”, a bydd sawl cynllun angen amser i’w weithredu cyn bydd y rheiny yn cynhyrchu buddion hirdymor.
Mae’r Unedau Cyllid perthnasol yn cydweithredu’n barhaus gyda’r Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad er mwyn gwirio fod modd gwireddu'r arbedion “cynlluniedig”, a’r neges glir i’r penaethiaid gwasanaeth perthnasol yw bod dim cyllideb gorfforaethol ar gyfer ‘pontio’ unrhyw dangyflawni yn erbyn eu targedau tuag at y £4M.
Yn yr achosion lle mae Gwasanaethau yn fyr o’u targedau arbedion, cadarnhaf y bu trafodaethau adeiladol (mewn cyfarfodydd o’r Tim Arbedion Gwasanaethau) gyda’r Penaethiaid perthnasol ar lefel swyddogion, a diau fod yr Arweinyddion perthnasol hefyd yn pwyso ar eu Penaethiaid Gwasanaeth am gynnydd. Er hynny, wrth i’r gwaith o sicrhau arbedion effeithiolrwydd brofi’n gynyddol heriol, mae’n amlwg fod pryder yn parhau yn hwyr yn y dydd am un neu ddau o’r cynlluniau i arbed.”

C. Papurau Cefndir

CH. Goblygiadau Polisi